



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio – Ymddiriedolwr Cymorth i Ferched Cymru

Annwyl Ymgeisydd

Diolch am ddangos diddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr i Cymorth i Ferched Cymru. Yn amgaaedig fe gewch becyn ymgeisio a fydd, gobeithio, yn cynnwys yr wybodaeth fydd ei hangen arnoch chi i ymgeisio. Mae'r pecyn gwybodaeth hwn a'r dogfennau atodol yn cynnwys:

- Disgrifiad o rôl Ymddiriedolwr
- Ffurflen gais (dogfen ar wahan)
- Adroddiadau Blynyddol (gweler ein gwefan: <https://www.welshwomensaid.org.uk/about/annual-reports/>)
- Ffurflen monitro cydraddoldeb (dogfen ar wahan)

Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais a'r ffurflen monitro erbyn y dyddiad cau yn yr hysbyseb, wedi'u marcio at sylw Rose Baxter i: ebostio RoseBaxter@welshwomensaid.org.uk.

Ar ôl ystyried eich cais bydd panel recriwtio'r Bwrdd yn gosod ymgeiswyr ar restr fer i'w cyfwd. Yn y cyfamser os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd, ebostiwch Governance@welshwomensaid.org.uk.

Mae Ymddiriedolwyr yn chwarae rhan hanfodol yn sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i gyflenwi'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen ledled Cymru. Gobeithio'n fawr y cewch chi eich ysbrydoli i ymuno â ni ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir,

Paula Walters
Cadeirydd, Cymorth i Ferched Cymru
Ar ran y Bwrdd Ymddiriedolwyr

Gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd Cymorth i Ferched Cymru:

Ein Gweledigaeth

Rydym ni am gael byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod, a thrwy wneud hynny'n cyflawni annibyniaeth a rhyddid rhag gormes.

Ein Gwerthoedd a'n Hymagwedd

Sefydliad ffeministaidd yw Cymorth i Ferched Cymru, ac mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar ymrwymiadau i hawliau dynol, gwrth-wahaniaethu a rhyddid rhag gormes. Rydym ni'n cadarnhau tystiolaeth fyd-eang bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fater rhyweddol, yn achos ac yn ganlyniad i sefyllfa anghyfartal menywod a merched yn y gymdeithas, sy'n torri hawliau dynol ac yn gwbl ataliadwy.

Mae ein hymagwedd yn seiliedig a gwerthoedd canlynol:

Rydym ni'n ffeministaidd ac yn rhoi gwerth ar amrywiaeth profiadau bywyd - rydym ni'n amlygu lleisiau amrywiol, gan gydnabod bod hunaniaethau a phrofiad bywyd yn effeithio ar brofiad o gam-drin a mynediad at gymorth, diogelwch a chyfiawnder. Rydym ni'n galw am ddileu trais yn erbyn menywod a merched ochr yn ochr â rhyddid i bob menyw a merch rhag gorthrymderau lluosog fel rhywiaeth, hiliaeth, homoffobia, trawsffobia, gwahaniaethu ar sail dosbarth, oedran neu abledd, er mwyn cyflawni cyfiawnder cymdeithasol i bawb.

Rydym ni'n hyrwyddo unplygrwydd - rydym ni'n atebol, ac yn cadw lleisiau'r goroeswyr a'u profiadau bywyd yng nghanol ein gwaith. Rydym ni'n annog parch, tryloywder a dysgu o brofiad, yn herio camddefnydd o rym ac yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol ym mhopeth a wnawn.

Rydym ni'n cydweithio - rydym ni'n gweithio gyda goroeswyr, gwasanaethau arbenigol, cyrff, unigolion a chymunedau eraill, i adeiladu capasiti gwasanaethau a thystio a chyflawni'r hyn sy'n gweithio i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rydym ni'n grymuso – rydym ni'n galw am ymagwedd ar sail hawliau er mwyn i bob menyw a merch gyflawni ei photensial llawn, ac rydym ni'n hyrwyddo gwasanaethau a arweinir gan fenywod i fenywod/grwpiau lleiafrifol fel elfen hanfodol i gwrdd ag anghenion a chyflawni rhyddid cymdeithasol economaidd a gwleidyddol rhag patriarchaeth, hiliaeth ac unrhyw orthrwm arall.

Rydym ni'n trawsnewid - rydym ni'n ymrwymo i herio anghydraddoldebau a gwahaniaethu, gan gyfuno gwasanaethau ansawdd uchel gydag actifiaeth i sicrhau newid cymdeithasol, a chreu mudiad sy'n dileu trais yn erbyn menywod a merched ac sy'n rhyddhau menywod a merched rhag gorthrymderau lluosog a chroestoriadol er budd pawb.

Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr: yn gymwys i'r holl Ymddiriedolwyr

Cydnabyddiaeth: Nid oes cydnabyddiaeth ariannol i rôl yr Ymddiriedolwr, ond gellir hawliau treuliau am deithio.

Lleoliad: Cymru (cynhelir cyfarfodydd yng Nghaerdydd fel arfer, ac mewn rhanbarthau eraill yn achlysurol)

Ymrwymiad amser: Hyd at 5 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn, ynghyd ag aelodaeth o un is-bwyllgor y Bwrdd o leiaf (hyd at 4 cyfarfod arall y flwyddyn).

Atebol i: Bwrdd yr Ymddiriedolwyr/Cadeirydd.

Dyletswyddau statudol Ymddiriedolwr yw:

- Sicrhau bod Cymorth i Ferched Cymru yn cydymffurfio â'i dogfen lywodraethu (Memorandwm ac Erthyglau), cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill.
- Sicrhau bod gan Cymorth i Ferched Cymru weledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd clir a'i fod yn datblygu strategaeth glir gydag amcanion mesuradwy i weithio at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion elusennol, fel y'i diffinnir yn y ddogfen lywodraethu.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol Cymorth i Ferched Cymru a sicrhau adnoddau ar gyfer cyflawni ei amcanion yn unig.
- Cyfrannu'n weithredol at rôl y Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n rhoi cyfeiriad strategol clir i Cymorth i Ferched Cymru, yn gosod polisi, diffinio bwriadau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau a gytunir.
- Diogelu enw da a gwerthoedd Cymorth i Ferched Cymru.
- Sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon Cymorth i Ferched Cymru.
- Diogelu a rheoli eiddo a sicrhau buddsoddi cronfeydd yn briodol.
- Penodi, rheoli a chefnogi'r Prif Swyddog Gweinyddol a sicrhau bod gan y sefydliad staff priodol, effeithiol.

Yn ogystal â'r amrywiol ddyletswyddau statudol, dylai unrhyw Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad yn llawn i helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau da. Rhestr ddangosol yn unig yw'r uchod ac nid yw'n hollgynhwysfawr – ceir rhagor o wybodaeth ym Mholisi Llywodraethu'r sefydliad. Bydd disgwyl i'r ymddiriedolwr berfformio unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yr ystyrir eu bod yn briodol i'r rôl. Ceir rhagor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr ar wefan y Comisiynydd Elusennau dan "*The Essential Trustee*"

<https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3>

Mae **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Ymddiriedolwyr yn y Sector Gwirfoddol a Chymunedol** hefyd yn egluro'r safon o gymhwyster sydd i'w gyflawni ac yn datgan yr amcanion sydd i'w cyrraedd o ganlyniad i'r safonau gofynnol. Caiff y rhain eu defnyddio gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr i lywio'r gwaith recriwtio, nodi anghenion dysgu a datblygu ac adolygu perfformiad Ymddiriedolwyr y Bwrdd.

Gofynion Ychwanegol Cymorth i Ferched Cymru:

Yn ogystal â deall a derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol Ymddiriedolwyr, fel yr amlinellir uchod, disgwylir i bob Ymddiriedolwyr hefyd ddangos:

1. Ymrwymiad i weledigaeth, cenhadaeth ac amcanion strategol Cymorth i Ferched Cymru.

2. Ymrwymiad i egwyddorion ffeministaidd, ac i ddod â thrais yn erbyn menywod i ben mewn fframwaith o gydraddoldeb rhywedd a hawliau dynol; cyflenwi gwasanaethau mewn amgylchedd a arweinir gan fenywod, a hyrwyddo cydraddoldeb a grymuso menywod.
3. Ymrwymiad cryf i wasanaethau'r sector gwirfoddol a chymunedol a gwybodaeth dda am y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
4. Gweledigaeth strategol gref a'r gallu i feddwl yn greadigol mewn modd sy'n datrys problemau ac yn strategol, a pharodrwydd i ddysgu a chynyddu datblygiad personol
5. Barn annibynnol dda, parodrwydd i fynegi barn adeiladol ac ystyried barn pobl eraill yr un pryd, a gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm
6. Sgiliau a phrofiad helaeth yn un neu ragor o'r meysydd canlynol:
 - Llywodraethu a chynllunio strategol
 - Codi arian a ffrydiau incwm amrywiol
 - Rheoli ariannol
 - Gweithio yn y sector gwirfoddol neu mewn gwasanaethau cyhoeddus perthnasol
 - Materion cyfreithiol e.e. cyflogaeth, y system gyfiawnder, cyfraith teulu, hawliau dynol
 - Marchnata, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu
 - Technoleg Gwybodaeth
 - Sicrhau Ansawdd a mesur effaith
 - Datblygu polisi ac ymgyrchu

CYMHWYSEDD YMDDIRIEDOLWYR ELUSENNOL

Rhaid i Ymddiriedolwyr Cymorth i Ferched Cymru fod yn fenyw sy'n 18 oed neu'n hŷn.

Mae rhai pobl yn cael eu hatal gan y gyfraith rhag gweithredu fel Ymddiriedolwr elusen. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau ildiad hawl (gweler isod) mae hyn yn cynnwys unrhyw un sydd:

- ag euogfarn anhreuliedig am am drosedd yn cynnwys anonestrwydd neu dwyll
- yn fethdalwr ar hyn o bryd (neu sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau methdalau neu orchymyn dros dro) neu sydd â threfniant gwirfoddol unigol gyda chredydwyr
- wedi'i hatal rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni
- sydd wedi'i diarddel o fod yn Ymddiriedolwr yn flaenorol gan y Comisiwn Elusennau neu'r Uchel Lys oherwydd camymddygiad neu gamreoli

Fel arfer mae'n drosedd gweithredu fel Ymddiriedolwyr os ydych chi wedi'ch diarddel oni bai bod y comisiwn wedi rhoi ildiad hawl. Dyletswydd yr Ymddiriedolwr yw hysbysu Cymorth i Ferched Cymru os ceir unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r Ymddiriedolwr sy'n effeithio ar ei chymhwysedd i weithredu fel Ymddiriedolwr.

Manyleb Unigolyn: Ymddiriedolwr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol gyda'i gilydd ac ar wahân am lywodraethu cyffredinol a chyfeiriad strategol yr elusen, ei hiechyd ariannol, gonestrwydd ei gweithgareddau a datblygu nodau, amcanion a thargedau'r sefydliad yn unol â'r ddogfen lywodraethu, canllawiau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Dylai'r holl Ymddiriedolwyr hefyd fod yn ymwybodol a deall eu cyfrifoldebau unigol a chyfunol, ac ni ddylent orddibynnu ar un Ymddiriedolwr unigol neu fwy mewn unrhyw agwedd benodol o lywodraethu'r elusen.

Profiad:

- Profiad llwyddiannus o weithredu ar Fwrdd mewn corff elusennol, sector cyhoeddus neu fasnachol.
- Profiad o adeiladu a chynnal cysylltiadau gyda rhanddeiliaid a chydweithwyr allweddol i gyflawni amcanion y sefydliad.
- Hanes o farn gadarn a phenderfynu effeithiol.
- Hanes o amhleidioldeb, tegwch a gallu parchu cyfrinachau.
- Hanes o ymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth

Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth:

- Ymrwymiad i'r sefydliad a pharodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol.
- Parodrwydd i wneud argymhellion amhoblogaidd i'r Bwrdd ac i fynegi barn.
- Parodrwydd i fod ar gael i gynghori staff ac ateb ymholiadau ar sail ad hoc.
- Doethineb da, annibynnol a gweledigaeth strategol.
- Deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol ymddiriedolwr.
- Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.
- Deall swyddogaethau'r Cadeirydd, yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr
- Gallu goruchwylio strategaeth ariannol a chyfeiriad strategol y sefydliad.

Tymor

Bydd Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am dymor o dair blynedd a byddant yn gymwys i'w haillethol am un tymor ychwanegol o dair blynedd.

Gwybodaeth Ychwanegol: Manteision dod yn Ymddiriedolwr

- Defnyddio eich sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth, gan weithio i atal trais a cham-drin a helpu i sicrhau bod anghenion goroeswyr yn cael eu diwallu.
- Helpu i sicrhau bod gwasanaethau annibynnol arbenigol yn gynaliadwy ac yn cael eu cefnogi.
- Datblygu sgiliau newydd, yn enwedig o ran arwain, rheolaeth a strategaeth mewn corff cenedlaethol.
- Cyfarfod â phobl newydd a datblygu cysylltiadau newydd.
- Ehangu eich profiad a'ch gwybodaeth am y sector dielw.
- Cyfoethogi eich CV.
- Arwain cyfeiriad yr elusen dros y 5 mlynedd nesaf a sicrhau bod Cymru'n arwain ar draws y DU o ran atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Caiff rhaglen sefydlu a hyfforddi ei darparu, yn enwedig i'r rheini sydd heb brofiad blaenorol o Cymorth i Ferched Cymru neu o fod yn Ymddiriedolwr.

Cymhwyster:

I fod yn Ymddiriedolwr unrhyw elusen rhaid i chi allu rheoli a gweinyddu eich materion eich hun. Mae rhai pobl yn cael eu hatal rhag dod yn Ymddiriedolwr, gan gynnwys pobl sydd ag euogfarnau anhreuliedig yn ymwneud â thwyll neu anonestrwydd, methdalwyr heb eu rhyddhau, pobl sydd wedi'u diarddel neu eu gwahardd rhag bod yn Ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwr cwmni yn flaenorol a phobl sy'n anghymwys dan y Rhestr Diogelu Oedolion Agored i Niwed.

Cyn dod yn Ymddiriedolwr bydd gofyn i chi lofnodi datganiad safonol o gymhwyster a chydysnio i ni ymgymryd â gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Os cewch eich recriwtio'n llwyddiannus i fod yn Ymddiriedolwr byddwn yn hysbysu'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau am eich penodiad.

Penodi a sefydlu:

Caiff Ymddiriedolwyr eu hethol i'r Bwrdd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymorth i Ferched Cymru. Gellir cyfethol Ymddiriedolwyr i'r Bwrdd rhwng Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ac yna eu hethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Bydd pob Ymddiriedolwr yn cael cynnig ei sefydlu yn y rôl, sy'n gyfle i ddysgu am y dyletswyddau ac am wahanol agweddau o Cymorth i Ferched Cymru, gan gynnwys:

- Pecyn sefydlu o wybodaeth hanfodol: disgrifiad o rôl Ymddiriedolwr, copi o ddogfen lywodraethu Cymorth i Ferched Cymru, adroddiad a chyfrifon blynyddol, a chofnodion cyfarfodydd Ymddiriedolwyr blaenorol.
- Cyfle i ddod i adnabod Ymddiriedolwyr eraill.
- Cyfle i ddysgu am rolau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr drwy gyflwyniadau mewn cyfarfodydd Bwrdd neu fynychu hyfforddiant.
- Cyfle i ddysgu mwy am y sefydliad – cyfarfodydd gyda staff allweddol, ymweliadau â gwasanaethau a lleoliadau neu gyflwyniadau gan aelodau o staff.

Caiff penodiadau Ymddiriedolwyr eu hadolygu'n flynyddol a dylai Ymddiriedolwyr sydd newydd eu sefydlu ddisgwyl gwasanaethu am o leiaf un tymor. Mae Ymddiriedolwyr yn atebol i Gadeirydd y Bwrdd, ac mae Cymorth i Ferched Cymru'n gweithio i sicrhau bod perfformiad y Bwrdd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Cyfarfodydd ac ymrwymïadau eraill

Gofynnir i Ymddiriedolwyr fynychu hyd at 5 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn: mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr fel arfer yn cyfarfod unwaith pob chwarter gyda'r nos yn ystod yr wythnos rhwng 5.30 a thua 8.00pm. Ar hyn o bryd mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal fwy neu lai, ond fel arfer yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd. Bydd costau teithio a llety yn cael eu talu yn ôl yr angen, ond bydd rhith-ddeialu ar gael o hyd.

Anogir Ymddiriedolwyr i ymuno ag un o Is-grwpiau'r Bwrdd, sydd hefyd yn cyfarfod pob chwarter yn y prynhawn/gyda'r nos cyhyd â bod Ymddiriedolwyr ar gael. Yr Is-grwpiau presennol yw Cyllid a Chodi arian, Cyflogaeth ac AD, a Llywodraethu. Yn ogystal, disgwylir i Ymddiriedolwyr fynd ar ddiwrnod encil blynyddol Cymorth i Ferched Cymru, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymorth i Ferched Cymru, a gweithdai dysgu Ymddiriedolwyr. Hefyd bydd angen i Ymddiriedolwyr ddarllen dogfennau a negeseuon ebost rhwng cyfarfodydd.

Er nad oes cyflog i'r rôl, telir treuliau rhesymol yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth Cymorth i Ferched Cymru.

Sut i ymgeisio:

Corff a arweinir gan fenywod yw Cymorth i Ferched Cymru sy'n ymrwmo i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rôl hon wedi'i heithrio dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Atodlen 9, Rhan 1. Dim ond menywod a ddylai ymgeisio. Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Croesawn yn arbennig geisiadau o gymunedau lleiafrifol, ac o ranbarthau de ddwyrain Cymru a gogledd Cymru nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ar ein Bwrdd.

Dylid cyflwyno cais drwy gwblhau'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro atodedig.

Dylai'r ffurflen gais ymdrin â'ch diddordeb personol yn y rôl, a sut mae eich profiad a'ch sgiliau'n eich galluogi i gefnogi'r Bwrdd, gan gyfeirio'n benodol ar y meini prawf a osodwyd uchod yn y Fanyleb.

Dylech ddychwelyd eich ffurflenni erbyn y dyddiad cau yn yr hysbyseb wedi'u marcio at sylw Rose Baxter i: Cymorth i Ferched Cymru, Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE, neu ebostio RoseBaxter@welshwomensaid.org.uk

Ar ôl ystyried eich cais bydd panel recriwtio'r Bwrdd yn gosod ymgeiswyr ar restr fer i'w cyfweld. Yn y cyfamser os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd, ebostiwch Governance@welshwomensaid.org.uk.

Dyddiad cau ymgeisio:
Cyfweliadau Panel:

Hanner dydd, 9 Mehefin 2021
Diwedd Mehefin

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig 1140962 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant 7483469.